Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Nefyn**
**Ffordd Dewi Sant**
**Nefyn**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6EA**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Nefyn wedi ei lleoli yn nhref Nefyn, ar arfordir gogleddol Pen Llyn yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae disgyblion o Ysgol Morfa Nefyn yn ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 4. Mae 138 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 17 o oed meithrin. Mae chwe dosbarth yn yr ysgol, sy'n cynnwys dau ddosbarth oed cymysg.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 75% o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 20% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 32% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan awdurdod arall.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2009. Ers yr arolygiad, mae'r staff wedi newid yn sylweddol. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2013 a'r dirprwy ers Ebrill 2014.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Nefyn yw £3,789. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r isafswm yw £2,981. Mae Ysgol Gynradd Nefyn yn 63ain allan o'r 98 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith
- bron bob un disgybl yn ymddwyn yn dda, yn frwdfrydig, yn awyddus i ddysgu ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig
- llais y disgybl yn gryf ym mywyd yr ysgol
- disgyblion ar draws yr ysgol yn manteisio ar gyfleoedd cyson i gyfrannu at yr hyn maent yn ei ddysgu
- yr ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol
- strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio yng ngwaith y disgyblion
- ethos cynhwysol a gofalgar gan yr ysgol ac mae'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweiniad cadarn ac yn cydweithio'n effeithiol gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned i greu ysgol lwyddiannus
- ganddo weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion
- y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i gyflawni cynlluniau strategol yr ysgol
- gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen i'w datblygu
- strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol
- ystod dda o bartneriaethau buddiol yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill, sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod deilliannau disgyblion uwch eu gallu y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n well ag ysgolion eraill

A2 Gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Cynnig her gyson i ddisgyblion o allu uwch

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed, ac eithrio yn y Gymraeg, sy'n newydd i leiafrif y disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig sy'n gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae medrau llafar disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y Gymraeg, gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa sy'n briodol ar gyfer eu hoed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau'r athrawon ac yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn yn aeddfed am ystod o destunau ac yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eraill, gan ystyried eu safbwyntiau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn cyfathrebu'n eglur ac effeithiol ac yn defnyddio geirfa eang wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae safon darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r mwyafrif yn darllen yn rhugl a chywir. Mae llawer yn defnyddio strategaethau amrywiol priodol i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf yn deall y cyd-destun a rhediad y straeon ac yn trafod y cynnwys yn ddeallus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gywir yn unol â'u gallu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer yn arddangos gwybodaeth dda am gynnwys eu llyfrau ac yn deall yr hyn maent yn ei ddarllen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Mae llawer yn defnyddio ystod o strategaethau priodol fel cipddarllen yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth yn y ddwy iaith i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am y gofod.

Mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus, gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae llawer yn ysgrifennu'n briodol i'w hoed ar draws y meysydd dysgu. Er hyn, ychydig sy'n ysgrifennu yn estynedig yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Maent yn ysgrifennu'n drefnus gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol. Maent yn cynnwys geirfa ac ymadroddion perthnasol, er enghraifft wrth ddisgrifio'r glaniad cyntaf ar y lleuad neu wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol i aelod seneddol ynglŷn â pheryglon ysmygu yn y car. Er hyn, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn gyson dda.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion y Cyfnod Sylfaen fedrau mathemategol priodol ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatrys problemau yn eu gweithgareddau. Mae llawer yn cymhwyso eu ddealltwriaeth o unedau mesur safonol yn effeithiol wrth amcangyfrif, mesur a chymharu pwysau ffrwythau a llysiau. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth syml i greu tabl a llunio graff bar syml, er enghraifft o'u hoff lyfrau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen, ar bapur ac ar gyfrifiannell i ddatrys problemau yn ymwneud â nodweddion allweddol y planedau. Maent yn trin a dadansoddi data yn hyderus i greu graffiau wrth ymchwilio i sut mae maint cysgod yn newid dros amser. Er bod medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, nid ydynt yn eu trosglwyddo'n ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae bron bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau personol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, yn cyflawni cystal ag y gallent.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gostwng o'r 25% uchaf i'r 25% isaf dros yr un cyfnod.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg gan amlaf wedi bod yn y 50% is. Mae perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth yn amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol**.** Ar y lefel uwch, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio cryn lawer ac nid oes patrwm amlwg.

Nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth dros gyfnod rhwng cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae bron bob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.
Mae ymddygiad bron bob un disgybl yn dda ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae bron bob un yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn dda yn y gwersi. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth addas o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae llais y disgybl yn bwysig ym mywyd yr ysgol ac mae disgyblion o bob oedran yn manteisio ar gyfleoedd cyson i gyfrannu at yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfle i ymgymryd â chyfrifoldebau, er enghraifft fel swyddogion amser egwyl a llysgenhadon chwaraeon. Mae cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig ac mae eu syniadau'n nodwedd amlwg yng nghynllun datblygu'r ysgol. Maent yn weithgar yn yr ysgol, er enghraifft wrth drefnu cyfres o glybiau ar ôl ysgol. Mae'r cyngor yn trefnu gweithgareddau i godi arian tuag at nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yr ysgol dros gyfnod o bedair blynedd gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n diwallu anghenion bron bob disgybl yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r ddarpariaeth allanol yn sicrhau cyfleoedd buddiol ymhob maes dysgu ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol, ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus amrediad buddiol o weithgareddau sy'n datblygu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth yn dda. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau bob amser yn sicrhau digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn. Mae ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Gwneir defnydd da o ymweliadau yn yr ardal leol fel Nant Gwrtheyrn a Bad Achub Porth Dinllaen, ynghyd ag ymwelwyr fel Bardd Plant Cymru, i gyfoethogi'r profiadau.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth disgyblion am faterion cynaliadwyedd, er enghraifft wrth ailddatblygu gardd yr ysgol i dyfu llysiau. Mae cyfleoedd diddorol sy'n magu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang trwy astudio bywyd pobl mewn gwledydd eraill. Mae'r cysylltiad cadarn gydag ysgol yn Affrica yn cyfrannu'n llwydiannus at ddealltwriaeth disgyblion o'r ffordd o fyw yno.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol, sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau

llafar. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, ble mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau, ac yn holi'r disgyblion yn effeithiol er mwyn annog atebion estynedig. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r athrawon wedi mabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu sydd wedi gwreiddio yng ngwaith y disgyblion. Maent yn gosod amcanion a meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn effeithiol ac yn cynnig adborth llafar gwerthfawr iddynt yn amserol. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan weithredol wrth asesu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Mae'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol i gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gweithgareddau buddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau, er enghraifft wrth wella ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a diogel, lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned a chyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r holl staff yn hyrwyddo byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta'n ofalus ac ymarfer corff rheolaidd. Mae gweithdrefnau cadarn wedi eu mabwysiadu i wella presenoldeb, sydd eisoes wedi arwain at welliant.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da i ddisgyblion ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol. Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys athrawes arbenigol nam ar y clyw, therapydd galwedigaethol ac asiantaethau lles. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol unigolion yn fuan ac yn sicrhau darpariaeth fuddiol ar eu cyfer. Trwy asesiadau rheolaidd, mae athrawon yn cadw golwg agos ar eu cynnydd a phennir targedau clir a chyraeddadwy yn y cynlluniau addysg unigol. Mae rhieni a disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol, gofalgar a chynhwysol sy’n annog parch tuag at blant ac oedolion.  Mae'r ysgol yn gymuned fywiog gydag awyrgylch teuluol, cynnes sy’n annog pob disgybl i gymryd cyfrifoldeb ac i drin pobl eraill yn deg.  Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles, yn ogystal ag annog yr holl ddisgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau’r ysgol a'r gymuned ehangach.  Mae polisïau a gweithdrefnau’r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i’r ddarpariaeth.

Mae’r adeiladau’n cynnig digon o le ar gyfer y disgyblion.  Mae’r safle yn ddiogel a chadarn.  Mae’r staff yn gwneud defnydd da o adeilad a thir yr ysgol ac maent yn cael eu cynnal a’u cadw’n raenus.  Gwneir defnydd pwrpasol o’r ardal allanol i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen ac i annog disgyblion o bob oed i gadw’n iach, dysgu bod yn gynaliadwy a gwerthfawrogi’r amgylchedd naturiol o’u cwmpas.  Mae amrywiaeth o arddangosfeydd deniadol o waith disgyblion ar waliau’r ystafelloedd, sy’n rhoi bri ar waith disgyblion ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol.  Mae cyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da'r disgyblion.  Mae’n darparu arweiniad cadarn ac yn cydweithio’n llwyddiannus â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i greu ysgol lwyddiannus.  Mae’n sicrhau ymroddiad parod aelodau’r gymuned drwy eu cynnwys yn y broses o sefydlu arwyddair newydd i’r ysgol.  O ganlyniad, mae’r holl randdeiliaid yn cydweithio’n effeithiol i greu cymuned ysgol hapus.

Mae staff yn cefnogi’r pennaeth yn dda ac yn cydweithio fel tîm i gyflawni amcanion yr ysgol.  Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn canolbwyntio’n glir ar flaenoriaethau gwella’r ysgol.  O ganlyniad, mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda mewn perthynas â chynlluniau strategol yr ysgol.  Gwelir effaith hyn yn glir yn y ffordd y mae medrau ysgrifennu estynedig disgyblion wedi gwella.  Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn gysylltiedig â blaenoriaethau’r ysgol a pherfformiad disgyblion.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft, wrth weithredu Siarter iaith Gwynedd yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn defnyddio’r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi.

Mae’r corff llywodraethol yn wybodus ac yn cefnogi’r ysgol yn dda.  Trwy dderbyn adroddiadau’r pennaeth ac ymweld yn gyson i arsylwi ar wersi ac i graffu ar lyfrau, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol.  Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barnau disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ac adroddiadau ymgynghorwyr. Mae pob aelod o staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses hunanarfarnu ac yn cynnig mewnbwn gwerthfawr i'r trafodaethau. Mae'r dull y mae'r athrawon yn cydweithio mewn triawdau i gynllunio ac arsylwi gwersi ei gilydd wedi cryfhau eu rôl yn y broses sicrhau ansawdd. Mae wedi arwain at rannu arfer dda ar sut i wella safonau llythrennedd disgyblion. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir i'w cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod staff, disgyblion a llywodraethwyr yn chwarae rhan allweddol yn y broses. Mae'r cynllun yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau. Mae'n gynllun manwl ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r disgyblion. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn monitro prif flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn barhaus. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft wrth wella safonau darllen Saesneg disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaethau buddiol sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson sy'n fodd iddynt ddeall yn well sut i gefnogi eu plant, gyda'u gwaith cartref er enghraifft. Mae'r gymdeithas rieni weithgar wedi ariannu cornel ddarllen a chyfrannu at sefydlu'r ardal allanol. Yn ogystal, cynhelir sesiynau mewn partneriaeth ag elusen leol i gefnogi rhieni disgyblion rhwng tair a chwech oed.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli gyda'r ysgol feithrin sydd wedi ei lleoli ar dir yr ysgol. Sicrha hyn fod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin. Mae cysylltiadau a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol fabanod leol ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol. Ceir cysylltiadau buddiol gyda'r uned iaith gyfagos i sicrhau bod disgyblion newydd i'r ardal yn cael dysgu Cymraeg a'i defnyddio'n weithredol yn hyderus. Mae trefniadau trosglwyddo buddiol gyda'r ysgol uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus ar gyfer disgyblion.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae partneriaeth werthfawr gyda'r gymuned leol sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu'n effeithiol.  Enghraifft o hyn yw'r modd y mae gwahanol fusnesau yn y gymuned yn cael effaith dda ar ddealltwriaeth disgyblion o fyd busnes.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm.  Mae ymroddiad gwerthfawr y cymorthyddion yn dylanwadu'n dda ar wella cyraeddiadau'r disgyblion, er enghraifft wrth sicrhau cefnogaeth ofalus i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan yr ysgol amrediad da o adnoddau sy'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n effeithiol i sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'r amser cynllunio, paratoi ac asesu trwy gydweithio'n effeithiol mewn triawdau.  Mae prosesau rheoli perfformiad yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad pellach staff trwy rannu arfer dda, er enghraifft ar sut i ddatblygu ysgrifennu estynedig disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu effeithiol.  Mae nifer o rwydweithiau dysgu gydag ysgolion eraill yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon rhannu arfer dda, er enghraifft wrth ddefnyddio adnoddau priodol i gryfhau gafael disgyblion o ffeithiau rhif.  Mae'r triawdau dysgu, a sefydlwyd o fewn yr ysgol, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu, sydd wedi arwain at wella ansawdd medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli gwariant yn ofalus.  Gwnânt ddefnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau llythrennedd a rhifedd, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer profiadau dysgu.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612004 - YSGOL GYNRADD NEFYN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 128 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.1 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 12 | 16 | 13 | 18 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 81.3 | 76.9 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 16 | 13 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 81.3 | 76.9 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 25.0 | 15.4 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 16 | 13 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 81.3 | 76.9 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 31.3 | 23.1 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 16 | 13 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 84.6 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 62.5 | 53.8 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612004 - YSGOL GYNRADD NEFYN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 128 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.1 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 21 | 15 | 22 | 13 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.5 | 93.3 | 77.3 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 15 | 22 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 93.3 | 77.3 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | * | 22.7 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 14 | 22 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.0 | 92.9 | 77.3 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | * | 22.7 | 46.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 3 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 15 | 22 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 100.0 | 86.4 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 40.0 | 31.8 | 46.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 15 | 22 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 100.0 | 86.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.1 | 40.0 | 31.8 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 69 | 68<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 69 | 62<br>90%<br>92% | 7<br>10%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 67 | 64<br>96%<br>97% | 3<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 69 | 69<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 68 | 64<br>94%<br>96% | 4<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 69 | 66<br>96%<br>96% | 3<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 68 | 66<br>97%<br>99% | 2<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 69 | 67<br>97%<br>98% | 2<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 69 | 59<br>86%<br>91% | 10<br>14%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 69 | 66<br>96%<br>95% | 3<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 68 | 56<br>82%<br>77% | 12<br>18%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 69 | 57<br>83%<br>84% | 12<br>17%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 24 | 18<br>75% | 6<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 24 | 19<br>79% | 5<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 24 | 20<br>83% | 4<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 24 | 18<br>75% | 6<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 24 | 11<br>46% | 13<br>54% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 23 | 15<br>65% | 8<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 23 | 18<br>78% | 5<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 23 | 14<br>61% | 9<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 15<br>62% | 7<br>29% | 2<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 24 | 17<br>71% | 7<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 22 | 15<br>68% | 7<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 17 | 11<br>65% | 6<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 10<br>42% | 13<br>54% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 24 | 16<br>67% | 8<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 24 | 13<br>54% | 8<br>33% | 3<br>12% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 24 | 14<br>58% | 10<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 19 | 8<br>42% | 11<br>58% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 23 | 10<br>43% | 11<br>48% | 2<br>9% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 24 | 15<br>62% | 9<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| R Richard Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alan Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.